**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565


Darren Hughes
Cyfarwyddwr Conffederasiwn GIG Cymru

6 Tachwedd 2025

Annwyl Darren,

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd)

Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd) ("y Bil") yn ystod ein cyfarfod ar 3 Tachwedd 2025.

Mae'r Bil yn creu dyletswyddau cyfreithiol a throseddau newydd a fydd yn gymwys i gyrff y GIG a'u staff.

Er mwyn cynorthwyo ein gwaith craffu ar y Memorandwm, byddem yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau a ganlyn:

1. I ba raddau, os o gwbl, y mae cyrff y GIG yng Nghymru wedi ymwneud â datblygu'r Bil, a/neu i ba raddau yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch unrhyw ddarpariaethau perthnasol?

2. A oes gennych unrhyw farn ar gwmpas y dyletswyddau cyfreithiol a'r troseddau newydd a nodir yn y Bil i'r graddau y byddant yn gymwys i gyrff y GIG yng Nghymru a'u staff? A ydych o'r farn y gallai unrhyw ganlyniadau anfwriadol ddeillio o'r ffordd y mae'r Bil wedi'i ddrafftio?

3. Mae'r Memorandwm yn nodi bod rhai o ddarpariaethau'r Bil yn ymddangos fel pe baent yn dyblygu neu'n ehangu mecanweithiau presennol ar onestrwydd megis y Ddyletswydd Gonestrwydd a sefydlwyd o dan *Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020*. A oes gennych unrhyw farn ar oblygiadau'r dyblygu hwn i gyrff y GIG?

4. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar y Bil neu ar y Memorandwm i gynorthwyo ein gwaith craffu?

Y dyddiad cau a bennwyd gan Bwyllgor Busnes y Senedd ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm yw 19 Rhagfyr 2025. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 21 Tachwedd fan bellaf os yw hynny'n bosibl, fel y gallwn ystyried eich ymateb cyn i ni gyhoeddi ein hadroddiad. Os oes gennych unrhyw bryderon am yr amserlen hon, mae croeso i chi gysylltu â'r clercod ar unrhyw adeg.

Yn gywir,



Mike Hedges
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.